



Deddf Addysg (Cymru) 2014

2014 dccc 5

RHAN 2

Y GWEITHLU ADDYSG

Cofrestru'r gweithlu addysg

9 Cofrestr

- (1) Rhaid i'r Cyngor sefydlu a chynnal cofrestr at ddibenion y Rhan hon.
- (2) Rhaid i'r gofrestr gynnwys enw pob person sy'n gymwys i'w gofrestru o dan adran 10 ac sy'n gwneud cais i gael ei gofrestru.
- (3) Rhaid i'r gofrestr gynnwys y categorïau a nodir ac a ddisgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 (y "categorïau cofrestru").
- (4) Rhaid i bob person cofrestredig fod wedi ei gofrestru mewn o leiaf un categori cofrestru.
- (5) Caniateir i berson gael ei gofrestru ar sail dros dro.

Gwybodaeth Cychwyn

- | | |
|----|--|
| I1 | A. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler a. 50 |
| I2 | A. 9(1)(3) mewn grym ar 16.1.2015 at ddibenion penodedig gan O.S. 2015/29 , ergl. 2(c) |
| I3 | A. 9(1)(3) mewn grym ar 1.4.2015 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2015/29 , ergl. 3(f) |
| I4 | A. 9(2)(4)(5) mewn grym ar 1.4.2015 gan O.S. 2015/29 , ergl. 3(f) |

Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg (Cymru) 2014, Adran 9.